



## Ysgoloriaethau Ôl-raddedig Price Davies

Darperir Ysgoloriaethau Price Davies (sydd hefyd yn cynnwys Ysgolofiaethau Mynediad Price Davies) o'r incwm o gymynrodd i'r Brifysgol ym 1900 gan y diweddar Mr Price Davies, Leeds.

### Ysgoloriaethau Ôlraddedig

1. Dyfernir Ysgoloriaethau a elwir Ysgoloriaethau Ôlraddedig Price Davies o dro i dro a byddant yn werth yr un faint ag Efyrdiaeth Ôlraddedig y Brifysgol.
2. Delir yr ysgoloriaethau am un flwyddyn academaidd o ddyddiad y dyfarniad ond gellir eu hadnewyddu am ail a thrydedd flwyddyn academaidd.
3. Dyfernir yr ysgoloriaeth i'r ymgeisydd sydd, ym marn Senedd Prifysgol Bangor, yn fwyaf haeddiannol ar sail perfformiad yn yr arholiadau gradd.
4. Un o amodau dal Ysgoloriaeth Price Davies o dan yr adran hon yw bod y deiliad yn dilyn cynllun astudio ar gyfer gradd ôl-raddedig yn y Celfyddydau neu'r Gwyddorau ym Mhrifysgol Bangor.
5. Cyhoeddir cynnig yr ysgoloriaeth yn y sesiwn cyn y sesiwn y'i dyfernir ar ei gyfer.
6. Dylai'r ceisiadau gael eu cyflwyno i Gofrestrydd Prifysgol Bangor, erbyn 22 Mehefin.

---

Caiff y rheoliadau hyn eu ffurfio ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd yn addas i'r cyfnod modern.

1. Bydd union werth y dyfarniad yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.
2. Cymesur ac yn amodol ar y cyllid sydd ar gael